

## Swydd Ddisgrifiad: Athro/Athrawes Blwyddyn 1 Ysgol Comins Coch

### Pwrpas y Swydd:

Darparu addysg o ansawdd uchel i ddisgyblion Blwyddyn 1, gan gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n ysgogi chwilfrydedd, yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

### Prif Ddyletswyddau:

- **Cynllunio ac Addysgu:** Cynllunio a dysgu gwersi o safon uchel yn dilyn Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad yr athro a dysgu drwy chwarae.
- **Asesu a Chofnodi:** Asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd, marcio gwaith, a defnyddio data i gynllunio ar gyfer anghenion unigol pob disgybl.
- **Rheoli Dosbarth:** Creu amgylchedd dysgu cadarnhaol, diogel a symbylol sy'n annog ymddygiad da a hunan-ddisgyblaeth.
- **Datblygu Sgiliau:** Canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg a rhifedd sylfaenol.
- **Cyfathrebu:** Cadw perthynas agos â rhieni/gwarcheidwaid drwy adroddiadau a chyfarfodydd rhiant-athro.
- **Cydweithio:** Gweithio'n agos gyda chynorthwyr dosbarth a staff eraill i gefnogi dysgu.

### Manyleb Swydd

- **Cymwysterau:** Statws Athro Cymwysedig a chofrestriad gyda Chyngor Gweithlu Addysg Cymru.
- **Profiad:** Profiad o addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.
- **Sgiliau:** Sgiliau iaith Gymraeg ardderchog
- **Nodweddion:** Angerdd am addysgu plant ifanc, gallu i ysbrydoli, a dychwch.
- **Rhinweddau Personol:**  
Y gallu i fod yn gydnerth o dan bwysau a pharhau i fod yn gadarnhaol a brwdfrydig  
Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus  
Ymrwymiad i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru